



**Safonau Ymarfer  
ar gyfer  
Optometryddion  
ac Optegwyr  
Dosbarthu**

# Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Dosbarthu

---

## **Safonau Ymarfer**

Mae ein Safonau Ymarfer yn diffinio'r safonau ymddygiad a pherfformiad rydym yn eu disgwyl gan bob optometrydd ac optegydd dosbarthu cofrestredig.

## **Y Cyngor Optegol Cyffredinol**

Y Cyngor Optegol Cyffredinol yw'n rheoleiddio'r proffesiynau optegol yn y DU gyda chyfrifoldeb statudol dros bennu safonau.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r pedair ar bymtheg o safonau y mae'n rhaid i chi eu cyflawni fel gweithiwr optegol proffesiynol. Nid yw'r safonau hyn wedi eu rhestru yn nhrefn eu blaenoriaeth ac maent yn cynnwys safonau mewn perthynas â'ch ymddygiad a'ch perfformiad proffesiynol fel ei gilydd. Bydd angen defnyddio'ch barn broffesiynol wrth benderfynu sut i gyflawni'r safonau. I'ch helpu i wneud hyn, rydym wedi darparu gwybodaeth ychwanegol am yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gennych o dan bob safon. O ran nifer fach o safonau, mae'n bosib y cynhyrchwn ddeunydd ategol pan deimlwn fod angen cymorth ychwanegol ar gofrestreion

---

## **Eich rôl fel gweithiwr proffesiynol**

Fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, mae gennych gyfrifoldeb dros sicrhau gofal a diogelwch eich cleifion a'r cyhoedd a thros gynnal safonau proffesiynol.

Rydych yn atebol yn broffesiynol ac yn gyfrifol yn bersonol am eich ymarfer a'r hyn rydych yn ei wneud neu'n methu â'i wneud, waeth pa gyfarwyddyd neu gyngor a gewch oddi wrth gyflogwr neu gydweithiwr. Mae hyn yn golygu bod rhaid i chi allu cyfiawnhau'ch penderfyniadau a'ch gweithredoedd chi bob tro.

Os bydd rhywun yn codi pryderon am eich addasrwydd i ymarfer, cyfeiriwn at y safonau hyn wrth benderfynu a oes angen i ni gymryd unrhyw gamau. Bydd angen i chi ddangos bod eich penderfyniadau wedi eu llywio gan y safonau hyn a'ch bod wedi ymddwyn er lles gorau'ch cleifion.

## **Gwneud gofal eich cleifion eich ystyriaeth gyntaf a phennaf**

Rhaid i ofal, lles a diogelwch cleifion fod eich ystyriaeth gyntaf bob tro. Dyma sydd wrth galon bod yn weithiwr proffesiynol gofal iechyd. Hyd yn oed os nad oes gennych gysylltiad uniongyrchol â chleifion, gall eich penderfyniadau neu'ch ymddygiad chi effeithio ar eu gofal a'u diogelwch o hyd.

## Y safonau

Fel optometrydd neu optegydd dosbarthu mae'n rhaid i chi:

- 1 Gwrando ar gleifion a sicrhau eu bod wrth galon y penderfyniadau a wneir am eu gofal;
- 2 Cyfathrebu'n effeithiol â'ch cleifion;
- 3 Sicrhau caniatâd dilys;
- 4 Dangos gofal a thosturi dros eich cleifion;
- 5 Cadw'ch gwybodaeth a'ch sgiliau yn gyfredol;
- 6 Cydnabod cyfyngiadau eich cymhwysedd a gweithio o'u mewn;
- 7 Cynnal asesiadau, archwiliadau, triniaethau ac atgyfeiriadau priodol;
- 8 Cynnal cofnodion priodol am eich cleifion;
- 9 Sicrhau bod goruchwyliaeth yn cael ei chynnal yn briodol a'i bod yn cydymffurfio â'r gyfraith;
- 10 Gweithio'n gydweithredol â chydweithwyr er budd cleifion;

- 11 Amddiffyn a diogelu cleifion, cydweithwyr ac eraill rhag niwed;
- 12 Sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer eich cleifion;
- 13 Dangos parch a thegwch tuag at eraill a pheidio â gwahaniaethu'n annheg;
- 14 Cynnal cyfrinachedd a pharchu preifatrwydd eich cleifion;
- 15 Cynnal ffiniau priodol â phobl eraill;
- 16 Bod yn onest ac yn ddibynadwy;
- 17 Peidio â niweidio enw da'ch proffesiwn drwy eich ymddygiad;
- 18 Ymateb i gwynion yn effeithiol;
- 19 Bod yn ddidwyll pan fydd pethau wedi mynd o chwith.

Bydd angen defnyddio'ch barn broffesiynol wrth benderfynu sut i gyflawni'r safonau. I'ch helpu i wneud hyn, mae'r adran nesaf yn rhoi mwy o fanylion am yr hyn a ddisgwyliwn ohonoch mewn perthynas â phob safon.

# **1. Gwrando ar gleifion a sicrhau eu bod wrth galon y penderfyniadau a wneir am eu gofal**

- 1.1 Rhoi'ch sylw llawn i gleifion a chaniatáu digon o amser i ymdrin yn briodol â'u hanghenion.
- 1.2 Gwrando ar gleifion a chymryd eu barn, dewisiadau a phryderon i ystyriaeth, gan ymateb yn onest ac yn briodol i'w cwestiynau.
- 1.3 Cynorthwyo cleifion i arfer eu hawliau a gwneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal. Parchu'r dewisiadau maent yn eu gwneud.
- 1.4 Trin cleifion fel unigolion a pharchu eu hurddas a'u preifatrwydd. Mae hyn yn cynnwys hawl claf i gyfrinachedd.
- 1.5 Lle bo modd, addasu'ch gofal a thriniaeth ar sail anghenion a dewisiadau'ch claf heb gyfaddawdu eu diogelwch.
- 1.6 Ystyried yr holl wybodaeth a ddarperir gan eich cleifion, gan gynnwys lle maent wedi gwneud ymchwil cyn yr ymgynghoriad. Esbonio'n glir os nad yw'r wybodaeth yn ddilys neu'n berthnasol.
- 1.7 Annog cleifion i ofyn cwestiynau a chymryd rhan weithgar yn y penderfyniadau am eu triniaeth, rhagnodi ac ôl-ofal.
- 1.8 Cefnogi cleifion wrth ofalu amdanynt eu hunain, gan gynnwys rhoi cyngor am effeithiau dewisiadau bywyd a ffordd o fyw ar eu hiechyd a'u lles a'u cefnogi i wneud newidiadau i'w ffordd o fyw lle bo'n briodol.

## 2. Cyfathrebu'n effeithiol â'ch cleifion

- 2.1 Rhai gwybodaeth i gleifion mewn ffordd y gallant eu deall. Defnyddio'ch barn broffesiynol i addasu'ch iaith a'ch dull cyfathrebu fel y bo'n briodol.
- 2.2 Dylai cleifion wybod ymlaen llaw beth i'w ddisgwyl o'r ymgynghoriad a chael cyfle i ofyn cwestiynau neu newid eu meddwl cyn mynd ymlaen.
- 2.3 Bod yn effro i arwyddion a allai awgrymu diffyg dealltwriaeth, anghysur neu ddiffyg cytundeb claf.
- 2.4 Sicrhau bod y bobl rydych yn gyfrifol amdanynt yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â chleifion a'u gofalwyr, cydweithwyr ac eraill.
- 2.5 Sicrhau bod gan gleifion neu eu gofalwyr yr holl wybodaeth mae arnynt ei hangen i allu i ddefnyddio, gweinyddu neu edrych ar ôl unrhyw ddyfais optegol, cyffuriau neu driniaeth arall sydd wedi eu rhagnodi iddynt neu maent wedi eu cyfarwyddo i'w defnyddio er mwyn rheoli cyflwr eu llygaid. Mae hyn yn cynnwys mynd ati i ddangos iddynt sut i ddefnyddio unrhyw rai o'r uchod.
- 2.6 Bod yn sensitif ac yn gefnogol wrth ddelio â pherthnasau neu bobl eraill sy'n agos at y claf.

### 3. Sicrhau caniatâd dilys

- 3.1 Sicrhau caniatâd dilys cyn archwilio claf, darparu triniaeth neu gynnwys cleifion mewn gweithgareddau addysgu ac ymchwil. Er mwyn i ganiatâd fod yn ddilys rhaid iddo gael ei roi:
    - 3.1.1. Yn wirfoddol.
    - 3.1.2. Gan y claf neu rywun sydd wedi ei awdurdodi i weithredu ar ran y claf.
    - 3.1.3. Gan berson sydd â'r gallu i roi caniatâd.
    - 3.1.4. Gan berson sydd wedi ei hysbysu'n briodol. Ystyr hysbysu yw eich bod yn esbonio'r hyn rydych yn mynd i'w wneud a sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o unrhyw risgiau ac opsiynau o ran archwiliad, triniaeth, gwerthu neu gyflenwi cyfarpar optegol neu ymchwil maent yn cymryd rhan ynddi. Mae hyn yn cynnwys hawl y claf i wrthod triniaeth neu i hebryngwr neu gyfieithydd fod yn bresennol.
  - 3.2 Bod yn ymwybodol o'ch rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â chaniatâd, gan gynnwys y gwahaniaethau wrth roi caniatâd dros blant, pobl ifanc ac oedolion hawdd eu niweidio. Wrth weithio mewn cenedl y Deyrnas Unedig ac eithrio lle rydych yn ymarfer fel arfer, bod yn ymwybodol o unrhyw wahaniaethau yn y gyfraith ganiatâd a chymhwyso'r rhain i'ch ymarfer.
  - 3.3 Sicrhau bod caniatâd y claf yn parhau'n ddilys bob cam o'r archwiliad neu driniaeth ac yn ystod unrhyw ymchwil maent yn cymryd rhan ynddi.
-



## **4. Dangos gofal a thosturi dros eich cleifion**

- 4.1 Trin eraill gydag urddas, a dangos empathi a pharch.
- 4.2 Ymateb gyda dynoliaeth a charedigrwydd i amgylchiadau lle bydd cleifion, eu teulu a'u gofalwyr yn dioddef poen, gofid neu bryder.

## **5. Cadw'ch gwybodaeth a'ch sgiliau yn gyfredol**

- 5.1 Bod yn gymwys ym mhob agwedd ar eich gwaith, gan gynnwys ymarfer clinigol, rolau goruchwylio, dysgu, ymchwil a rheoli, a pheidio ag ymgymryd ag unrhyw rolau nad ydych yn gymwys i'w gwneud.
- 5.2 Cydymffurfio â gofynion Addysg a Hyfforddiant Parhaus y Cyngor Optegol cyffredinol fel rhan o ymrwymiad i gynnal a datblygu'ch gwybodaeth a'ch sgiliau drwy gydol eich gyrfa yn weithiwr optegol proffesiynol.
- 5.3 Bod yn ymwybodol o'r arfer gorau presennol, gan gymryd i ystyriaeth datblygiadau perthnasol mewn ymchwil glinigol, a chymhwyso hyn i'r gofal a ddarperwch.
- 5.4 Myfyrio ar eich ymarfer a cheisio gwella ansawdd eich gwaith drwy weithgareddau fel adolygiadau, archwiliadau, arfarniadau neu asesiadau risg. Gweithredu unrhyw gamau sy'n codi o'r rhain.

## **6. Cydnabod cyfyngiadau eich cymhwysedd a gweithio o’u mewn**

- 6.1 Cydnabod a gweithio o fewn cyfyngiadau cwmpas eich ymarfer, gan gymryd i ystyriaeth eich gwybodaeth, sgiliau a phrofiad.
- 6.2 Gallu gwybod pryd mae angen i chi atgyfeirio claf er budd iechyd a diogelwch y claf, a gwneud atgyfeiriadau priodol.
- 6.3 Sicrhau bod gennych y cymwysterau gofynnol sy’n berthnasol i’ch ymarfer.
- 6.4 Deall a chydymffurfio â gofynion cofrestrïad â’r Cyngor Optegol Cyffredinol a rhwymedigaethau cyfreithiol ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau a gyfyngir o dan y gyfraith, h.y. profi golwg a gwerthu a chyflenwi dyfeisiau optegol.

## **7. Cynnal asesiadau, archwiliadau, triniaethau ac atgyfeiriadau priodol**

- 7.1 Cynnal asesiad digonol at ddibenion yr ymgynghoriad optegol, gan gynnwys unrhyw hanes meddygol, teuluol a chymdeithasol perthnasol y claf. Gallai hyn gynnwys symptomau, credoau personol neu ffactorau diwylliannol.
- 7.2 Darparu neu drefnu unrhyw archwiliadau, cyngor, ymchwiliadau neu driniaeth pellach os oes eu hangen ar eich claf. Dylid gwneud hyn o fewn amserlen nad yw'n cyfaddawdu diogelwch a gofal y claf.
- 7.3 Rhagnodi dyfeisiau optegol, cyffuriau, neu driniaeth dim ond pan fydd gennych wybodaeth ddigonol am iechyd y claf.
- 7.4 Gwirio bod y gofal a thriniaeth a rowch i bob claf yn gydnaws ag unrhyw driniaethau eraill mae'r claf yn eu derbyn, gan gynnwys (lle bo'n bosibl) meddyginiaethau dros-y-cownter.
- 7.5 Darparu gofal a thriniaeth effeithiol i gleifion ar sail arfer da presennol.
- 7.6 Darparu neu argymell archwiliadau, triniaethau, cyffuriau neu ddyfeisiau optegol dim ond os oes cyfiawnhad clinigol, ac mae er lles gorau'r claf.
- 7.7 Os oes gennych amheuaeth, ymgynghori â chydweithwyr proffesiynol yn briodol am gyngor am asesu, archwilio, trin ac agweddau eraill ar ofal cleifion, gan gadw mewn cof yr angen am gyfrinachedd cleifion.

## 8. Cynnal cofnodion priodol am eich cleifion

- 8.1 Cynnal cofnodion cleifion clir, darllenadwy a chyfredol sy'n hygyrch i bawb sy'n ymwneud â gofal y claf.
  - 8.2 Fel lleiafswm, cofnodi'r wybodaeth ganlynol:
    - 8.2.1 Dyddiad yr ymgynghoriad;
    - 8.2.2 Manylion personol eich claf;
    - 8.2.3 Y rheswm dros yr ymgynghoriad ac unrhyw anhwylder sy'n bresennol;
    - 8.2.4 Manylion a chanfyddiadau unrhyw asesiad neu archwiliad clinigol a gynhalioch;
    - 8.2.5 Manylion unrhyw driniaeth, atgyfeirio neu gyngor a roesoich, gan gynnwys unrhyw gyffuriau neu ddyfais optegol a ragnodwyd neu gopi o lythyr atgyfeirio;
    - 8.2.6 Caniatâd a gafwyd am unrhyw archwiliad neu driniaeth;
    - 8.2.7 Manylion pawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad optegol, gan gynnwys eu henw a'u llofnod, neu ddull arall o adnabod yr awdur.

## **9. Sicrhau bod goruchwyliaeth yn cael ei chynnal yn briodol a'i bod yn cydymffurfio â'r gyfraith**

Mae hyn yn gymwys i oruchwyliaeth hyfforddeion cyn-cofrestru a chydweithwyr anghofrestredig sy'n ymgymryd â gweithgareddau dirprwyedig.

Mae'r cyfrifoldeb i sicrhau nad yw goruchwyliaeth yn cyfaddawdu gofal a diogelwch cleifion yn cael ei rannu rhwng y goruchwylwr a'r sawl sy'n cael eu goruchwyllo. Ar gyfer goruchwyliaeth ddigonol mae'n rhaid i chi:

- 9.1 Bod yn ddigon cymwys a phrofiadol i ymgymryd â'r swyddogaethau rydych yn eu goruchwyllo;
  - 9.2 Dim ond dirprwyo i'r sawl sy'n meddu ar gymwysterau, gwybodaeth neu sgiliau priodol i gyflawni'r gweithgarwch sy'n cael ei ddirprwyo;
  - 9.3 Bod yn yr adeilad ac mewn sefyllfa i oruchwyllo'r gwaith sy'n cael ei wneud ac yn barod i ymyrryd pe bai angen er mwyn amddiffyn cleifion;
  - 9.4 Cadw cyfrifoldeb clinigol dros y claf. Wrth ddirprwyo, chi sy'n cadw'r cyfrifoldeb dros y dasg ddirprwyedig a thros sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni i'r safon briodol;
  - 9.5 Cymryd pob cam rhesymol i atal niwed i gleifion sy'n codi o weithrediadau'r sawl sy'n cael eu goruchwyllo;
  - 9.6 Cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol sy'n llywodraethu'r gweithgarwch;
  - 9.7 Sicrhau bod manylion y sawl sy'n cael eu goruchwyllo neu sy'n cyflawni gweithgareddau dirprwyedig yn cael eu cofnodi ar gofnod y claf.
-

## **10. Gweithio'n gydweithredol â chydweithwyr er budd cleifion**

- 10.1 Gweithio'n gydweithredol â chydweithwyr o fewn y proffesiynau optegol ac ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill er lles gorau'ch cleifion, gan sicrhau cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol.
- 10.2 Sicrhau nad ydych yn atgyfeirio claf ond pa fydd cyfiawnhad clinigol, er budd y claf a heb gyfaddawdu gofal neu ddiogelwch cleifion. Wrth wneud neu dderbyn atgyfeiriad rhaid i chi sicrhau ei fod yn glir pwy sy'n gyfrifol am ofal y claf.
- 10.3 Sicrhau bod gan yr unigolion neu gyrff rydych yn atgyfeirio iddynt yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i beidio â chyfaddawdu gofal cleifion.
- 10.4 Sicrhau bod gwybodaeth y claf yn cael ei rhannu'n briodol ag eraill, a bod cofnodion clinigol yn hygyrch i bawb sy'n ymwneud â gofal y claf.
- 10.5 Pan fydd anghytundebau'n codi rhwng cydweithwyr, ceisio datrys y rhain er lles y claf.

## **11. Amddiffyn a diogelu cleifion, cydweithwyr ac eraill rhag niwed**

- 11.1 Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'ch rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion hawdd eu niweidio a chydymffurfio â hwy.
- 11.2 Amddiffyn a diogelu plant, pobl ifanc a phobl eraill hawdd eu niweidio rhag camdriniaeth. Rhaid i chi:
  - 11.2.1 Bod yn effro i arwyddion camdriniaeth a gwrthod hawliau;
  - 11.2.2 Ystyried anghenion a lles eich cleifion;
  - 11.2.3 Adrodd pryderon i berson neu gorff priodol;
  - 11.2.4 Gweithredu'n gyflym er mwyn atal risg niwed pellach;
  - 11.2.5 Cadw nodiadau digonol am yr hyn sydd wedi digwydd a pha gamau a gymeroch.
- 11.3 Adrodd pryderon am eich cleifion, cydweithwyr, cyflogwr neu gorff arall yn ddiymdroi os gall diogelwch claf neu'r cyhoedd fod mewn perygl ac annog eraill i wneud yr un peth. Dylai pryderon gael eu codi gyda'ch corff cyflogi, contractio, proffesiynol neu reoleiddio fel y bo'n briodol. Cyfeirir at hyn weithiau fel 'chwythu'r chwiban' ac amddiffynnir rhai agweddau ar hyn o dan y gyfraith.



- 11.4 Os oes gennych bryderon am eich addasrwydd eich hun i ymarfer, boed oherwydd problemau iechyd, cymeriad, ymddygiad, barn neu unrhyw fater arall a all niweidio enw da'ch proffesiwn, rhoi'r gorau i ymarfer ar unwaith a cheisio cyngor.
- 11.5 Os bydd cleifion mewn perygl oherwydd eiddo, offer, adnoddau, polisïau neu systemau cyflogaeth annigonol, unioni'r mater os bydd hynny'n bosib a/neu leisio pryder.
- 11.6 Sicrhau nad yw unrhyw gontractau neu gytundebau rydych yn rhan ohonynt yn eich cyfyngu rhag codi pryderon diogelwch cleifion gan gynnwys cyfyngu ar yr hyn y gallwch ei ddweud wrth godi'r pryder.
- 11.7 Sicrhau wrth adrodd pryderon eich bod yn cymryd i ystyriaeth eich rhwymedigaethau i gadw cyfrinachedd fel yr amlinellir yn safon 14.

## 12. Sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer eich cleifion

- 12.1 Sicrhau bod amgylchedd diogel yn cael ei ddarparu wrth roi gofal i'ch cleifion, a chymryd camau priodol os nad yw hynny'n wir (gweler safon 11). Yn benodol:
- 12.1.1 Bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a chydymffurfio â hi;
  - 12.1.2 Sicrhau bod yr amgylchedd a'r offer a ddefnyddiwch yn hylan;
  - 12.1.3 Sicrhau bod offer a ddefnyddiwch yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol;
  - 12.1.4 Dilyn y rheoliadau am sylweddau sy'n beryglus i iechyd;
  - 12.1.5 Gwaredu deunyddiau rheoledig, clinigol a ffiadd mewn ffordd briodol;
  - 12.1.6 Lleihau risg heintiad drwy weithredu rheolaethau heintio priodol gan gynnwys hylendid dwylo.
- 12.2 Sicrhau yswiriant indemnio proffesiynol digonol a dim ond gweithio mewn practisau y mae ganddynt yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:
- 12.2.1 Os darperir yswiriant gan eich cyflogwr, rhaid i chi gadarnhau bod yswiriant digonol ar waith;
  - 12.2.2 Os gweithiwch mewn mwy nag un practis, rhaid i chi sicrhau bod yswiriant digonol i gwmpasu pob amgylchedd gwaith;
-

- 12.2.3 Rhaid i'ch yswiriant indemnio proffesiynol ddarparu yswiriant cyson am gyfnod eich ymarfer;
- 12.2.4 Rhaid i'ch yswiriant indemnio proffesiynol gwmpasu cwynion sy'n cael eu derbyn ar ôl i chi roi'r gorau i ymarfer, am y gall y rhain gael eu derbyn blynyddoedd yn hwyrach – cyfeirir at hyn fel yswiriant 'run-off' weithiau.
- 12.3 Sicrhau wrth weithio yng nghartref claf neu leoliad cymuned arall bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn briodol ar gyfer darparu gofal.
- 12.4 Mewn argyfwng, cymryd camau priodol i ddarparu gofal, gan gymryd i ystyriaeth eich cymhwysedd a'r opsiynau eraill sydd ar gael. Rhaid i chi:
  - 12.4.1 Defnyddio'ch barn broffesiynol i asesu brys y sefyllfa.
  - 12.4.2 Darparu unrhyw ofal sydd o fewn cwmpas eich ymarfer a fydd o fudd i'r claf.
  - 12.4.3 Gwneud eich ymdrechion gorau i gyfeirio'r claf at weithiwr proffesiynol gofal iechyd neu ffynhonnell gofal arall lle bo'n briodol.

### **13. Dangos parch a thegwch tuag at eraill a pheidio â gwahaniaethu'n annheg**

- 13.1 Parchu urddas claf, gan ddangos cwrteisi ac ystyriaeth.
- 13.2 Hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn eich holl weithrediadau, a pheidio â gwahaniaethu'n annheg ar sail rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, statws o ran priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred.
- 13.3 Sicrhau nad yw'ch credoau crefyddol, moesegol, gwleidyddol neu bersonol chi yn rhagfarnu gofal cleifion. Os bydd y rhain yn eich atal rhag darparu gwasanaeth, sicrhau eich bod yn atgyfeirio cleifion at ddarparwyr priodol eraill.
- 13.4 Parchu sgiliau a chyfraniadau cydweithwyr a pheidio â gwahaniaethu'n annheg.
- 13.5 Bod yn ymwybodol o sut allai'ch ymddygiad chi ddylanwadu ar gydweithwyr a myfyrwyr a dangos ymddygiad proffesiynol ar bob adeg.

- 13.6 Ymatal rhag gwneud sylwadau diangen neu waradwyddus, yn gyhoeddus neu'n breifat, a allai wneud i glaf amau cymhwysedd, sgiliau neu addasrwydd i ymarfer eich cydweithwyr. Os oes gennych bryderon am addasrwydd cydweithiwr i ymarfer, dilynwch y safonau yn adran 11.
- 13.7 Cefnogi cydweithwyr a chynnig arweiniad lle byddant wedi nodi problemau gyda'u perfformiad neu eu hiechyd neu lle maent wedi ceisio'ch cymorth chi, ond rhoi buddiannau a diogelwch eich cleifion yn gyntaf bob tro.
- 13.8 Ystyried ac ymateb i anghenion cleifion anabl a gwneud addasiadau rhesymol i'ch ymarfer i ddarparu ar gyfer y rhain a gwella mynediad i ofal optegol.
- 13.9 Herio cydweithwyr os bydd eu hymddygiad yn wahaniaethol a bod yn fodlon adrodd ymddygiad sy'n gyfystyr â cham-drin neu wrthod hawl claf neu gydweithiwr, neu a allai danseilio diogelwch claf.

## **14. Cynnal cyfrinachedd a pharchu preifatrwydd eich cleifion**

- 14.1 Cadw'r holl wybodaeth am gleifion yn gyfrinachol yn unol â'r gyfraith, gan gynnwys gwybodaeth wedi ei hysgrifennu â llaw, ddirigidol, weledol, sain neu wedi ei chadw yn eich cof.
- 14.2 Sicrhau bod yr holl staff rydych yn eu cyflogi neu'n gyfrifol amdanynt yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau mewn perthynas â chynnal cyfrinachedd.
- 14.3 Cadw cyfrinachedd wrth gyfathrebu'n gyhoeddus, gan gynnwys siarad â'r cyfryngau neu ysgrifennu ynddynt, neu ysgrifennu ar-lein gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.
- 14.4 Cydweithredu ag ymchwiliadau ffurfiol a darparu'r holl wybodaeth berthnasol y gofynnir amdani yn unol â'ch rhwymedigaethau i gyfrinachedd cleifion.

- 14.5 Darparu lefel briodol o breifatrwydd ar gyfer eich cleifion yn ystod ymgynghoriad i sicrhau bod y broses o gasglu gwybodaeth, archwilio a thrin yn aros yn gyfrinachol. Bydd angen lefelau gwahanol o breifatrwydd ar wahanol gleifion a rhaid cymryd eu dewisiadau i ystyriaeth.
- 14.6 Peidio â defnyddio'r wybodaeth a gasglwch am gleifion ond at y dibenion y cafodd ei rhoi amdani, neu lle bod angen i chi ei rhannu o dan y gyfraith.
- 14.7 Storio ac amddiffyn cofnodion cleifion yn ddiogel i atal colled, lladrad a datgelu amhriodol, yn unol â'r gyfraith diogelu data. Os ydych yn gyflogai, yna byddech yn gwneud hyn yn unol â pholisi storio eich cyflogwr.
- 14.8 Gwaredu cofnodion cleifion pan nad oes ei hangen ragor yn gyfrinachol yn unol â gofynion diogelu data.

## **15. Cynnal ffiniau priodol â phobl eraill**

- 15.1 Cynnal ffiniau proffesiynol priodol â'ch cleifion, myfyrwyr ac eraill rydych yn dod i gysylltiad â hwy yn ystod eich ymarfer proffesiynol a chymryd gofal arbennig wrth ddelio â phobl hawdd eu niweidio.
  
- 15.2 Peidio byth â chamddefnyddio'ch safle proffesiynol i gam-elwa neu ddylanwadu'n ddiangen ar eich cleifion neu'r cyhoedd, boed yn wleidyddol, yn ariannol, yn rhywiol neu drwy ddulliau eraill sy'n ateb eich dibenion chi.



## **16. Bod yn onest ac yn ddibynadwy**

- 16.1 Gweithredu'n onest ac yn gywir er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn eich proffesiwn.
- 16.2 Osgoi neu reoli unrhyw wrthdrawiadau buddiannau a allai effeithio ar eich barn broffesiynol. Os yw'n briodol, datgan buddiant, tynnu'n ôl o'r anghydfod a gwrthod rhoddion a lletygarwch.
- 16.3 Sicrhau nad yw cymhellion, targedau a ffactorau tebyg yn effeithio ar eich barn broffesiynol. Peidio â chaniatáu i fuddiannau personol neu fasnachol gyfaddawdu diogelwch cleifion.
- 16.4 Sicrhau nad ydych yn gwneud datganiadau ffug neu gamarweiniol wrth ddisgrifio'ch gwybodaeth, profiad, arbenigedd ac arbenigeddau, gan gynnwys drwy ddefnyddio teitlau.
- 16.5 Bod yn onest yn eich trafodion ariannol a masnachol a rhoi gwybodaeth glir i gleifion am gostau'ch gwasanaethau a chynhyrchion proffesiynol cyn iddynt ymroi i brynu.
- 16.6 Peidio â gwneud datganiadau camarweiniol, dryslyd neu anghyfreithlon o fewn eich hysbysebion.

## **17. Peidio â niweidio enw da'ch proffesiwn drwy eich ymddygiad**

- 17.1 Sicrhau nad yw'ch ymddygiad, boed yn gysylltiedig â'ch ymarfer proffesiynol neu beidio, yn niweidio hyder y cyhoedd ynoch chi neu'ch proffesiwn.
- 17.2 Sicrhau nad yw'ch ymddygiad yn yr amgylchedd ar-lein, yn arbennig mewn perthynas â chyfryngau cymdeithasol, boed yn gysylltiedig â'ch ymarfer proffesiynol neu beidio, yn niweidio hyder y cyhoedd ynoch chi neu'ch proffesiwn.
- 17.3 Bod yn ymwybodol o'r cyfreithiau a'r rheoliadau sy'n effeithio ar eich ymarfer, a holl ofynion y Cyngor Optegol Cyffredinol, a chydymffurfio â hwy.

## **18. Ymateb yn effeithiol i gwynion**

- 18.1 Gweithredu system gwynion neu ddilyn y system sydd gan eich cyflogwr yn ei lle, gan wneud cleifion yn ymwybodol o'u cyfleoedd i gwyno i chi neu'ch cyflogwr. Ar y cam priodol yn y broses, dylai cleifion gael gwybod hefyd am eu hawliau i gwyno i'r Cyngor Optegol Cyffredinol neu geisio cyfryngu drwy'r Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol.
- 18.2 Parchu hawl claf i gwyno a sicrhau nad yw gwneud cwyn yn rhagfarnu gofal cleifion.
- 18.3 Ymateb yn onest, yn agored, yn gwrtais ac yn adeiladol i unrhyw un sy'n cwyno ac ymddiheuro lle bo'n briodol.
- 18.4 Darparu unrhyw wybodaeth y gall fod ei hangen ar achwynydd i symud ymlaen â chwyn gan gynnwys manylion eich cofrestriad gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol a manylion unrhyw feysydd ymarfer arbenigol cofrestredig.

## **19. Bod yn ddidwyll pan fydd pethau wedi mynd o chwith**

- 19.1 Bod yn agored ac yn onest gyda chleifion pan fyddwch wedi nodi bod pethau wedi mynd o chwith gyda’u triniaeth neu ofal sydd wedi arwain atynt yn dioddef niwed neu drallod neu os bydd goblygiadau posibl i ofal cleifion yn y dyfodol. Rhaid i chi:
- 19.1.1. Ddweud wrth y claf neu, lle bo’n briodol, eiriolwr, gofalwr neu deulu’r claf fod rhywbeth wedi mynd o’i le.
  - 19.1.2. Cynnig ymddiheuriad.
  - 19.1.3. Cynnig ymateb neu gefnogaeth briodol i unioni pethau (os yw’n bosibl).
  - 19.1.4. Esbonio’n llawn ac yn brydlon beth sydd wedi digwydd a’r effeithiau byrdymor a hirdymor tebygol.
  - 19.1.5. Amlinellu’r hyn y byddwch yn ei wneud, lle bo’n bosibl, i atal y peth rhag digwydd eto i wella gofal cleifion yn y dyfodol.

- 19.2 Bod yn agored ac yn onest gyda'ch cydweithwyr, cyflogwyr a chyrrff perthnasol, a chymryd rhan mewn adolygiadau ac ymchwiliadau pan wneir cais, a chyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol, gan godi pryderon lle bo'n briodol. Cefnogi ac annog eich cydweithwyr i fod yn agored ac yn onest, a pheidio â rhwystro rhywun rhag codi pryderon.
- 19.3 Sicrhau pan fydd pethau'n mynd o chwith eich bod yn cymryd i ystyriaeth eich rhwymedigaethau i fyfyrion ac i wella'ch ymarfer fel yr amlinellir yn safon 5.

Y Cyngor Optegol Cyffredinol  
10 Old Bailey  
Llundain, EC4M 7NG

Ffôn: +44 (0)20 7580 3898  
E-bost: [standards@optical.org](mailto:standards@optical.org)

 [@GOC\\_UK](https://twitter.com/GOC_UK)  
[www.optical.org](http://www.optical.org)